

COFNODION CYFARFOD CYDBWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO A GYNHALIWYD O BELL – DRWY GYFRWNG TIMAU MICROSOFT DDYDD GWENER, 6 MAWRTH 2026 AM 14:00

Presennol

Y Cyngorydd G John – y Cadeirydd

Presennol yn Rhithwir

JC Spanswick
E Caparros

P Davies

H Griffiths

B Stephens

Swyddogion:

D Jones
M Morgans
J Hamilton
M Pitman

Cyfrifydd – Rheolaeth Ariannol a Chwblhau
Pennaeth Gwasanaeth – Parth Cyhoeddus
Rheolwr a Chofrestrydd Gwasanaethau Profedigaeth
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Gwasanaethau Technegol

75. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y Penderfyniad Wnaed	Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr C Stallard a H Bennett
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	6 Mawrth 2026

76. Datganiadau o Fuddiannau

Y Penderfyniad Wnaed	Dim
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	6 Mawrth 2026

77. Cymeradwyo'r Cofnodion

Y Penderfyniad Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cydbwyllgor dyddiedig 5 Medi 2025 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	6 Mawrth 2026

78. Cynllun Busnes a Ffioedd yr Amlogfa

Y Penderfyniad Wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Reolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth, oedd cyflwyno Cynllun Busnes Lefel Gwasanaeth yr Amlogfa 2026-27 (yn Atodiad 1 i'r adroddiad) i'r Cydbwyllgor i'w gymeradwyo, ynghyd â chynnydd mewn ffioedd ar gyfer yr un cyfnod. Cyflwynir y Cynllun Busnes yn flynyddol i'r Cydbwyllgor i'w gymeradwyo, ac mae'n cynnwys amcanion y gwasanaeth a phrosiectau cynnal a chadw a gwelliannau arfaethedig i gyfoethogi a chynnal tiroedd ac adeiladau'r Amlogfa ar gyfer y cyfnod sydd i ddod. Cyfanswm nifer yr amlosgiadau ar gyfer blwyddyn galendr 2025 oedd 1,458, yn cynnwys 892 o Ben-y-bont ar Ogwr, 396 o Rhondda Cynon Taf a 118 o Fro Morganwg, gyda 52 o bobl nad oeddent yn byw yno (o'r tu allan i'r tri awdurdod sy'n rhan o Bwyllgor Cydweithredol yr Amlogfa). Roedd cytundeb ag Ysbyty Tywysoges Cymru ar gyfer amlosgi gweddillion ffetws anhyfyw (NVF) wedi arwain at 6 amlosgiad cymunedol ychwanegol. Trefnwyd 12 amlosgiad NVF unigol pellach yn uniongyrchol gyda theuluoedd. Cafodd cofnodion ystadegol ar gyfer y cyfnod o fis Ionawr i fis Rhagfyr 2025 a 2024 eu cynnwys yn y Cynllun Busnes er mwyn cymharu. Roedd y tabl ym mharagraff 3.4 o'r adroddiad yn dangos cymhariaeth gyda ffioedd amlosgi cyfredol (2025-26) mewn amlogsfeydd cyfagos.
----------------------	--

	Roedd yr adroddiad yn argymhell cynyddu'r taliadau a'r ffioedd amlosgi ar gyfer 2026-27 yn ôl chwyddiant o £845.40 i £872.45. Roedd hyn yn unol â'r Polisi Ffioedd a Thaliadau ac mae'n ymwneud â'r ffigur Mynegai Prisiau Defnyddwyr diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025. Yna, er budd yr aelodau, rhoddodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth grynodedig o beth o'r wybodaeth allweddol y manylwyd arni yn y Cynllun Busnes Lefel Gwasanaeth oedd ynghlwm wrth yr adroddiad, gan gynnwys:- • Bod wedi ennill y Faner Werdd am yr 16^{eg} flwyddyn yn olynol; • Y ffaith fod y Gwasanaeth yn parhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn hunangynhaliol; • Ystadegau Dangosyddion Perfformiad Rhagorol mewn perthynas â'r gwasanaeth; Rhoddodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth amlinelliad hefyd o'r gwaith y cynigiwyd ei wneud yn y flwyddyn/blynyddoedd i ddod. Roedd yr aelodau'n falch i ganmol yr adroddiad ac roeddent yn cefnogi'r cynnydd mewn ffioedd oedd yn unol â chwyddiant. <u>PENDERFYNWYD:</u> (1) Bod y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo Cynllun Busnes Lefel Gwasanaeth 2026-27 (yn Atodiad 1 i'r adroddiad). (2) Bod y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo cynnydd hefyd o 3.2% yn yr holl ffioedd ar gyfer 2026-27.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	6 Mawrth 2026

79. Perfformiad Ariannol 2025-26 a'r Gyllideb Refeniw Arfaethedig 2026-27

Y Penderfyniad Wnaed	Cyflwynodd y Cyfrifydd Rheoli Ariannol a Chwblhau adroddiad, a'i bwrpas oedd:- • Amlinellu'r Perfformiad Ariannol a ragwelid ar gyfer 2025-26 a chyllideb refeniw arfaethedig 2026-27 ar gyfer y Cyd-bwyllgor. • Dangos yn adroddiad y Perfformiad Ariannol y lefelau incwm a gwariant cyfredol, ynghyd â'r gwarged cyllideb a ragwelid o £345,258 ar gyfer 2025-26.
----------------------	---

- Y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2026-27 i'w chymeradwyo gyda chynnig i ffioedd gael eu cynyddu 3.2% yn unol â pholisi Ffioedd a Thaliadau'r Cyngor fel y dangosir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
- Hysbysu bod y Datganiad Cyfrifyddu Blyneddol ar gyfer 2024-25 wedi cael ei ddychwelyd a'i archwilio gan Archwilio Cymru heb ddim gwelliannau. (Cyfeirir at hyn yn Atodiad 2 i'r adroddiad).

Dangosai Tabl 1 yn yr adroddiad y sefyllfa ariannol ar 31 Ionawr 2026 a'r alldro a ragwelid ar gyfer 2025-26.

Yna, roedd Tabl 2 yn yr adroddiad yn adlewyrchu dadansoddiad o'r gyllideb Cynnal a Chadw Cyfalaf Gynlluniedig, ynghyd â'r alldro a ragwelid a'r amrywiadau ar gyfer 2025-26.

Ym mharagraff 3.3 o'r adroddiad, roedd Tabl 3 wedi ei gynnwys, oedd yn dangos y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2026-27.

Roedd gweddill yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am ofynion Gwariant Cynnal a Chadw Cyfalaf Cynlluniedig, Ffioedd a Thaliadau ynghyd ag Effaith Cyllideb arfaethedig 2026-27 ar y Balans Cronedig.

Nododd aelod, oddi wrth Dabl 3 ym mharagraff 3.3 yr adroddiad, fod swm o £38 mil yn gyfraniad gan CBSP. Gofynnodd beth oedd pwrpas hyn.

Dywedodd y Cyfrifydd Rheoli Ariannol a Chwblhau fod hyn ar gyfer costau y gellir eu hail-godi, er y byddai'n gwirio a oedd hyn yn wir ac y byddai'n rhoi ateb i'r aelod y tu allan i'r cyfarfod.

Yn olaf, cyfeiriodd aelod at Dabl 5 ym mharagraff 3.9 o'r adroddiad a gofynnodd beth oedd arwyddocâd y ffaith fod y ffigurau a restrir yn y tabl hwnnw mewn cromfachau.

Cadarnhaodd y Cyfrifydd Rheoli Ariannol a Chwblhau fod y ffigurau mewn cromfachau yn dangos mai incwm oedd yn dod i mewn oedd hwn.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyd-bwyllgor yn gwneud y canlynol:-

- (1) Nodi'r perfformiad ariannol a ragwelid ar gyfer 2025-26.
- (2) Cadarnhau a chymeradwyo'r gyllideb refeniw ar gyfer 2026-27.
- (3) Cymeradwyo cynnydd o 3.2% mewn ffioedd a thaliadau o 1 Ebrill 2026 ymlaen, fel yr amlinellir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	6 Mawrth 2026
-------------------------------	---------------

80. Eitemau Brys

Y Penderfyniad Wnaed	Nid oedd dim eitemau brys
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	6 Mawrth 2026

Er mwyn gwyllo dadlau pellach a fu ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen [hon](#).

Daeth y cyfarfod i ben am 14:37.